

Llwybrau Canfasio

Enw'r llwybr	Disgrifiad o'r llwybr	Meini prawf y llwybr Rhaid ei ddefnyddio	Meini prawf y llwybr Gellid ei ddefnyddio:
Llwybr 1 ⁱ	<p>Llwybr eiddo cyfatebol</p> <p>Defnyddir hwn ar gyfer eiddo lle mae'r ERO yn credu nad oes newidiadau i'r wybodaeth sydd ganddynt eisoes.</p>	<p>Nid oes senario lle mae rhaid i ERO ddefnyddio Llwybr 1.</p> <p>Gall EROs benderfynu symud eiddo i Llwybr 2 ar unrhyw adeg.</p>	<p>Gellir defnyddio Llwybr 1 lle bo'r data ar gyfer pob etholwr unigol ar yr aelwyd yn cyfateb i'r data lleol a/neu genedlaethol, ac os ydych yn fodlon nad oes angen newidiadau pellach ar gyfer yr eiddo.</p> <p>Gellir defnyddio Llwybr 1 ar gyfer eiddo gwag lle rydych wedi ymgymryd â pharu data lleol i gadarnhau bod yr eiddo'n wag.</p> <p>Os nad ydych wedi dechrau defnyddio proses Llwybr 3 eto ar gyfer eiddo, ac mae canlyniadau'r paru data yn cyfateb i bob etholwr yn yr eiddo, gellid defnyddio Llwybr 1.</p>
Llwybr 2 ⁱⁱ	<p>Llwybr eiddo heb ei gyfateb</p> <p>Defnyddir hwn ar gyfer eiddo lle mae'r ERO yn fodlon y gallai fod newid i'r wybodaeth sydd ganddynt eisoes.</p>	<p>Mae pob eiddo yn dechrau trwy gael ei neilltuo at Llwybr 2, a gallwch ddefnyddio Llwybr 2 ar gyfer unrhyw eiddo ar unrhyw adeg.</p> <p>Os bydd rhai o'r unigolion, neu bob un ohonynt, yn aros heb eu paru ar ôl ystyried holl ganlyniadau'r paru data, rhaid i chi ddefnyddio Llwybr 2.</p> <p>Gallwch ddefnyddio Llwybr 2 lle nad yw ymateb i e-gyfathrebiad ar gyfer eiddo Llwybr 1 yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn darparu ymateb llwyddiannus.</p>	<p>Gellir defnyddio Llwybr 2 hyd yn oed lle bo'r paru data wedi rhoi statws 'pariad' i bob etholwr, os ydych yn credu y gallai fod angen newidiadau i'r eiddo.</p> <p>Gellir defnyddio Llwybr 2 lle mae dadansoddi data lleol yn dangos y gallai fod angen newid i'r eiddo. Er enghraifft, os bydd pariad ar gyfer eiddo trwy ddefnyddio'r data cenedlaethol i gychwyn, ond wedyn rydych yn derbyn gwybodaeth ychwanegol gan ysgolion lleol sy'n dangos bod preswylwyr cymwys ychwanegol yn yr eiddo.</p>

Llwybrau Canfasio

Enw'r llwybr	Disgrifiad o'r llwybr	Meini prawf y llwybr Rhaid ei ddefnyddio	Meini prawf y llwybr Gellid ei ddefnyddio:
		<p>Gallwch ddefnyddio Llwybr 2 lle byddwch yn derbyn gwybodaeth anghyson mewn ymateb i e-gyfathrebiad neu CCA ar gyfer Llwybr 1, a lle na allwch fodloni eich hunan bod gennych y wybodaeth ofynnol i allu cwblhau'r broses ar gyfer Llwybr 1 ar ôl gwneud ymholiadau pellach.</p> <p>Rhaid defnyddio Llwybr 2 hefyd lle bo canlyniadau unrhyw baru data yn dangos bod yr unig bobl sydd wedi cofrestru ar gyfer cyfeiriad penodol o dan 18 oed, hyd yn oed os yw pob etholwr arall â statws 'pariad'.</p> <p>Rhaid defnyddio Llwybr 2 ar gyfer eiddo gwag lle nad ydych wedi gallu cadarnhau eu statws trwy baru data lleol.</p> <p>Rhaid i chi ddefnyddio Llwybr 2 ar gyfer unrhyw eiddo Llwybr 3 lle nad ydych wedi derbyn ymateb gan y person cyfrifol unigol o fewn amser rhesymol.</p>	<p>Gallwch benderfynu defnyddio Llwybr 2 ar gyfer unrhyw eiddo a neilltuwyd at Llwybr 3 lle nad ydych wedi dechrau proses Llwybr 3 ar gyfer yr eiddo.</p> <p>Hyd yn oed lle nad ydych wedi gallu cadarnhau eu statws trwy baru data lleol, gallech eto i gyd benderfynu defnyddio Llwybr 2 ar gyfer eiddo gwag.</p>
Llwybr 3 ⁱⁱⁱ	<p>Llwybr eiddo diffiniedig</p> <p>Mae hyn yn galluogi'r ERO i gael y wybodaeth sy'n ofynnol gan y canfasiad ar gyfer</p>	<p>Nid oes senario lle mae rhaid i ERO ddefnyddio Llwybr 3.</p>	<p>Gellir ond defnyddio Llwybr 3 lle'r ydych wedi canfod person cyfrifol unigol ar gyfer eiddo perthnasol, a lle'r ydych yn credu y byddwch yn gallu cael y wybodaeth sy'n ofynnol gan y canfasiad oddi wrth y person hwnnw.</p>

Llwybrau Canfasio

Enw'r llwybr	Disgrifiad o'r llwybr	Meini prawf y llwybr Rhaid ei ddefnyddio	Meini prawf y llwybr Gellid ei ddefnyddio:
	mathau penodol o eiddo oddi wrth berson cyfrifol unigol yn yr eiddo hwnnw. Yn ymarferol, byddwch wedi nodi eiddo Llwybr 3 posib cyn paru data.		Gallwch ddiystyru canlyniadau unrhyw baru data os neilltuwyd yr eiddo at Llwybr 3 cyn y canfasiad.

ⁱ Rheoliad 32ZBE, Rheoliadau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.

ⁱⁱ Rheoliad 32ZBD, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.

ⁱⁱⁱ Rheoliad 32ZBF, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.